

Cymraeg yn y Gweithle: New Celtic Restaurant a'r Cellar

Gan gynnig gwasanaeth bwyty a cludfwyd sglodion, mae'r New Celtic Restaurant yn gwasanaethu pobl leol ac ymwelwyr yn nhref arfordirol Aberaeron. Yr un teulu sydd hefyd yn berchen bwyty The Cellar. Er roedd arwyddion y New Celtic Restaurant eisoes yn ddwyieithog, a bod nifer o'r gweithlu yn siarad Cymraeg, roedd y cwmni yn awyddus i hyrwyddo'i gwasanaeth Cymraeg, ac i gyfieithu bwydlenni ar gyfer ei chwsmeriaid. Bu Llinos Thomas yn gweithio gyda'r Swyddog Datblygu Lleol.

Pa wasanaeth/au roedd eich mudiad wedi ei dderbyn gan eich swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Busnes?

Cyfieithwyd y brif fwydlen, bwydlen plant, y fwydlen brecwast a bwydlen 'prydau arbennig' i'r Celtic. Fe hefyd cyfieithwyd bwydlen arbennig Santes Dwynwen i ni yn y Seler. Hefyd cawsom llawer o ddefnyddiau i ddangos bod y bwyty yn annog defnyddio'r Gymraeg, fel bathodynau 'Cymraeg' i'r staff sy'n siarad Cymraeg, arwyddion bwrdd 'Croeso', arwyddion drws 'Ar agor', taflenni geirfa a CD cerddoriaeth Cymraeg.




Oedd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes yn rhywbeth roeddech chi wedi ei ystyried o'r blaen?

Oedd ond roeddwn ni ddim yn siŵr sut i gysylltu efo rhywun oedd yn neud cyfieithiadau. Dechreuon ni feddwl am y peth oherwydd roedd hyn yn rhywbeth oedd y cwsmeriaid yn gofyn amdano.

Beth yw eich cefndir chi, a beth oedd eich teimladau am ddefnyddio'r iaith yn eich busnes cyn gweithio gyda'ch swyddog lleol?

Dwi wedi gweithio yn y busnes teuluol ers i mi adael ysgol. Mae gennym ni ddau fwyty yn



Bwydlen Plant	
Yn cael eu gweini gydag un o'r canlynol: ffa pob, pys gardd, neu pys stwnsh	
11 Wy a sglodion	4.70
Selsig a sglodion	4.95
Bacwn a sglodion	5.10
Nugets cyw iâr a sglodion	5.10
Ham a sglodion	5.30
Cacen bysgod a sglodion	5.30
Byrgyr cig eidion a sglodion	5.60
Ffiled o benfras a sglodion	5.60
Sgampi a sglodion	5.95

Aberaeron a tai gwyliau yn Mydroilyn. Dwi hefyd yn gweithio yn y swyddfa ac yn delio efo gwaith papur y busnes.

Mae'r Gymraeg yn gryf yn Aberaeron a 'dwi'n gweld mwy o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio efo'r cenhedlaeth ifanc sydd yn y gwaith efo ni. Mae'r bwydlenni newydd wedi cal ymateb dda gan gwsmeriaid Cymraeg a chwsmeriaid o bant. Maen nhw'n hapus i weld bwydlenni dwyieithog.

Beth oedd eich profiad o'r gwasanaeth?

Roedd y gwasanaeth yn wych a bydden i'n ddigon hapus i argymhell pob busnes i'w defnyddio. Ni wedi cal adborth positif ofnadwy ynglŷn â'r bwydlenni Cymraeg newydd.

Ydych chi wedi cael ymateb ffafriol wrth ddefnyddio'r Gymraeg lle gallwch chi yn eich busnes?

Ydyn, mae cwsmeriaid yn hapus iawn i weld mwy o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y bwyty. Ni hefyd wedi rhoi'r bwydlenni Cymraeg ar Facebook ac wedi cael ymateb da fan hyn hefyd.

